

**Heatherwood Court
Ffordd Llantrisant
Penycoedcae
Pontypridd
CF37 1PL**

Adroddiad 2010-2011

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Ffordd Fan
CAERFFILI
CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850
Ffacs: 029 2092 8877

www.hiw.org.uk



ISBN 978 0 7504 6292 1

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2011

WG12582

Dyddiad yr Arolygiad:	Rheolwr Arolygu:
18 Hydref 2010	Mr John Powell a dau Adolygwr Gofal Iechyd Annibynnol

Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru fod wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae AGIC yn gweithredu fel y rheoleiddiwr gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru, sydd yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi eu dynodi fel yr awdurdod cofrestru.

Er mwyn cofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae AGIC yn rhoi cydymffurfiad darparwyr ar brawf trwy asesu pob asiantaeth a sefydliad cofrestredig yn erbyn cyfres o '*Safonau Gofynnol Cenedlaethol*', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n gosod y safonau gofynnol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau gofal iechyd annibynnol. Mae mwy o wybodaeth am y safonau a'r rheoliadau ar gael ar ein gwefan yn: www.hiw.org.uk

Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai bwriad yr adroddiad hwn yw adlewyrchu canfyddiadau'r digwyddiad arolygu. Ni ddylai darllenwyr gymryd yn ganiataol y bydd amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser.

Cefndir a Phrif Ganfyddiadau

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd o Heatherwood Court ar 18 Hydref 2010 gan Reolwr Arolygu a dau adolygwr. Cofrestrwyd yr ysbyty am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2007, ac mae wedi ei gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaethau diogelwch isel ar gyfer cleifion ag anhwylder meddwl a allai gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Ludlow Street Healthcare Ltd yw perchennog yr ysbyty.

Yn rhan o'r broses arolygu, cyflwynodd y darparwr cofrestredig ffurflen hunanasesu wedi ei chwblhau'n llawn ac amrywiaeth eang o ddogfennau ategol i ddangos sut yr oeddent yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar ddadansoddi amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys archwilio cofnodion cleifion a thrafod gyda phrif weithredwr y sefydliad, y rheolwr cofrestredig ac amrywiaeth o aelodau staff sy'n gweithio yn yr ysbyty. Yn ogystal, cyfwelwyd nifer o gleifion, ac mae adborth a gafwyd gan y cleifion a'r staff wedi ei nodi yn yr adroddiad hwn.

Ystyriwyd nifer o feysydd allweddol yn y broses arolygu, gan gynnwys meysydd asesu risg, rheoli ymddygiad cythryblus, cwynion, addasrwydd y cleifion sy'n derbyn llety, arlwy, yr amgylchedd gofal, staffio, a'r prosesau mewnol ar gyfer monitro ansawdd a llywodraethu.

O ran prif ganfyddiadau'r arolygiad, gwelwyd bod y darparwr cofrestredig wedi sefydlu'r canlynol:

- Datganiad o Ddiben cynhwysfawr a oedd yn rhoi manylion yr amrywiaeth o wasanaethau a oedd ar gael yn yr ysbyty, gan gynnwys y driniaeth a'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd canllaw i gleifion hefyd ar gael.
- Roedd dogfennau gofal cynhwysfawr ar gael, ac asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer pob claf, ac edrychwyd ar sampl ar hap o ddogfennau cleifion yn ystod yr ymweliad. Roedd dyddiad, amser a llofnod wedi eu nodi ar gyfer pob cofnod o nodiadau'r cleifion. Fodd bynnag, roedd y Clinigwr Cyfrifol yn gwneud cofnod yn nodiadau'r cleifion mewn adran ar wahân o'r nodiadau clinigol, ac o ganlyniad, nid oedd cofnod amlddisgyblaethol unigol wedi ei drefnu yn nhrefn amser i adlewyrchu'r gofal a roddir i gleifion dros gyfnod. Yn ogystal, bu digwyddiad gyda chlaf a oedd wedi ei nodi'n eglur yn y nodiadau cynnydd dyddiol, ond nid oedd unrhyw gynllun gofal wedi ei lunio mewn ymateb i'r digwyddiad. Hefyd, gellid gwella'r modd o gynnwys y cleifion yn eu proses cynllunio gofal.

- Cynhelir asesiad cychwynnol cyn-derbyn ar gyfer cleifion, ond roedd mwy o gyfarfodydd cynhwysfawr cyn-derbyn y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod derbyniadau priodol yn cael eu gwneud gan ystyried asesiadau cleifion.
- Roedd rheoli ymddygiad cythryblus yn her barhaus, ac roedd y darparwr cofrestredig wedi cymryd camau amrywiol i helpu i wella hyn, gan gynnwys archwiliadau a oedd yn nodi ffactorau ysgogi penodol.
- Roedd fframwaith cymhwysedd nyrs gofrestredig wedi ei gyflwyno, ac roedd fframwaith datblygu ar gyfer gweithwyr cymorth gofal yn cael ei gyflwyno ar adeg yr arolygiad. Yn ogystal, roedd y rhaglen hyfforddiant sefydlu yn cael ei datblygu ymhellach.
- Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu, gyda'r dyddiad llunio ac adolygu wedi eu nodi arnynt, ond roedd nifer sylweddol o aelodau'r staff heb lofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall nifer o bolisïau allweddol, gan gynnwys Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA), y Dull Rhaglen Gofal (CPA) ac absenoldeb dan Adran 17.
- Roedd rhaglen hyfforddi staff wedi ei sefydlu, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o bynciau statudol megis atal tân, cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch, codi a chario, Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA) a rheoli heintiau. Roedd yr hyfforddiant arall a ddilynwyd yn cynnwys y Ddeddf Galluedd Meddyliol, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac awtistiaeth. Fodd bynnag, o'r wybodaeth a gyflwynwyd yn rhan o'r broses hunanasesu, roedd nifer o aelodau'r staff heb gael hyfforddiant ar amddiffyn plant, hunanladdiad/hunan-niwed, anhwylderau personoliaeth a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.
- O ran gweithgareddau, roedd cyfleusterau eang ar gael yn yr ysbyty, gan gynnwys campfa gyda digon o offer ynddi, man hamdden a chymdeithasol a sinema fechan. Roedd Therapyddion Galwedigaethol yn darparu cyrsiau rhifedd a llythrennedd, ac roedd nifer o gleifion wedi cael achrediad 'Sgiliau Allweddol'. Roedd hyfforddwr sgiliau galwedigaethol a hyfforddwr campfa wedi eu penodi. Yn ogystal, roedd rhaglen weithgareddau wedi ei sefydlu, ond roedd nifer o gleifion y siaradwyd â hwy yn feiriadol o'r diffyg

gweithgareddau a'r ffaith fod sesiynau a drefnwyd yn cael eu canslo oherwydd prinder staff. Hefyd, roedd diffyg meddalwedd addas i alluogi'r holl gleifion i ddefnyddio'r cyfrifiadur a oedd ar gael.

- Roedd nifer o adroddiadau archwilio ar gael yn y sefydliad, ac roedd y rhain yn canolbwyntio ar nifer o feysydd, gan gynnwys digwyddiadau difrifol anffodus a gwaith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, roedd angen rhaglen archwilio clinigol fwy cynhwysfawr, a dywedwyd wrth y Rheolwr Arolygu fod hyn yn cael ei ddatblygu. Roedd dadansoddiad cynhwysfawr o holiaduron cleifion wedi ei gynnal ym mis Mawrth 2010, ond nid oedd cynllun gweithredu yn nodi sut y byddai'r materion a nodwyd yn derbyn sylw ar gael yn yr adroddiad a gyflwynwyd i AGIC.
- Gwneir y sylwadau canlynol yn glŷn â'r amgylchedd gofal:
 - Cardigan** – Gwasanaeth diogelwch isel ar gyfer deuddeg claf benywaidd, ac roedd yr amgylchedd gofal yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan.
 - Caernarvon** – Gwasanaeth diogelwch isel ar gyfer deuddeg claf gwrywaidd. Roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan, ond nodwyd nifer o ochrau miniog ar naill ben y rheiddiaduron. Mae hyn yn amlwg yn risg, ac mae angen rhoi sylw iddo. Yn ogystal, roedd y paneli gweld yn nrysau'r ystafelloedd gwely yn cael eu gadael ar agor, ac ni fyddai hyn yn gwarchod preifatrwydd ac urddas y cleifion. Mae'n eglur y dylid cynnal asesiad risg ar gyfer hyn, ond mae'n annerbyniol i'r holl baneli hyn gael eu gadael ar agor.
 - Caerphilly** – Gwasanaeth diogelwch isel ar gyfer deuddeg claf benywaidd. O ran y gerddi, roedd Ward Caerphilly a Ward Caernarvon yn rhannu gardd. Fodd bynnag, roedd claf benywaidd yn y man hwn ac nid oedd unrhyw aelodau staff yn bresennol nac ar gael yn unlle agos. O ystyried bod yr ysbyty yn darparu gwasanaeth diogelwch isel, nid yw hyn yn briodol.
 - Chepstow** – Gwasanaeth diogelwch isel ar gyfer deuddeg o gleifion o'r un rhyw. Yn ogystal, nid oedd unrhyw ardal ymweld addas i blant ar gael yn yr ysbyty.

Roedd seicolegydd ychwanegol wedi bod yn ei swydd ers mis Awst 2010, ac roedd angen gwneud gwaith datblygu gwasanaeth yn y maes hwn, o ran y tîm amlddisgyblaethol yn benodol. Roedd dau glinig meddyg teulu yn cael eu cynnal yn yr ysbyty bob wythnos, ac roedd meddyg teulu preifat hefyd ar gael i gleifion.

O ran penodi staff, dywedwyd wrth y tîm arolygu ar ddiwrnod yr arolygiad fod ymgyrch recriwtio fawr wedi ei chynnal a bod oddeutu 15 aelod o staff wedi eu penodi. Roedd y penodiadau hyn ar gyfer nyrsys cofrestredig a staff gofal.

O ran y maes rheoli meddyginiaethau, cynhaliwyd archwiliad byr o archebu, cadw, defnyddio a chael gwared ar feddyginiaethau ar Ward Caernarvon. Yn anffodus, nid oedd yn bosibl rhoi meddyginiaeth i gleifion yn uniongyrchol ar Ward Caernarvon. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r nyrsys cofrestredig, a oedd yn dosbarthu cyffuriau, yn gorfod rhoi meddyginiaeth mewn cynhwysydd priodol, cloi'r cwpwrdd meddyginiaeth, a gadael yr ystafell driniaeth a'r swyddfa i ddsbarthu meddyginiaeth i gleifion. Mae'r sefyllfa hon yn anfoddhaol ac mae angen ei hadolygu'n ddi-oed. Roedd cyffuriau rheoledig yn cael eu cadw a'u rhoi i gleifion, a darperid llofnod pan oedd y cyffuriau hyn yn cael eu rhoi i glaf. Roedd Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF) dyddiedig Medi 2010 ar gael fel ffynhonnell gyfeirio briodol. Roedd nyrsys cofrestredig a oedd newydd gymhwyso yn cael asesiad o roi meddyginiaeth yn ystod eu cyfnod mentoriaeth. Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr wedi eu sefydlu ynghylch y maes rheoli meddyginiaethau.

Nid oedd perfformiad staff yn cael ei adolygu'n rheolaidd bob blwyddyn ac roedd diffyg goruchwyliaeth staff. Dywedwyd wrth y tîm arolygu fod y maes hwn yn cael ei ddatblygu a'i wella. Roedd y darparwr cofrestredig wedi sefydlu system fewnol ar gyfer archwilio prosesau recriwtio.

Roedd holiadur cleifion ynglŷn ag arlwygo wedi ei ddsbarthu i gleifion, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad a'r cyfweiliadau cleifion, codwyd rhai pryderon ynghylch diffyg dewis o ran y bwyd a'r ffaith mai brechedanau oedd yr unig ddewis ar gyfer rhai prydau bwyd. Roedd materion arlwygo yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd cleifion, ac roedd llyfr sylwadau

ynghylch bwyd wedi ei gyflwyno ar bob ward. Roedd yn amlwg fod peth dewis ac amrywiaeth ar gael ac y darperid ar gyfer anghenion dietegol penodol. Yn ogystal, roedd y darparwr cofrestredig wedi penodi dau ddietydd i ganolbwyntio ar asesiadau maeth, cyngor dietegol a ffyrdd iachach o fyw ar gyfer cleifion. Roedd hon yn fenter gadarnhaol iawn.

Hoffai'r Rheolwr Arolygu ddiolch i'r cleifion, y rheolwr cofrestredig, y dirprwy reolwr a'r staff sy'n gweithio yn yr ysbyty am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad arolygu dirybudd.

Llwyddiannau a Chydymffuriad

Roedd wyth gofyniad rheoliadol wedi eu nodi yn yr adroddiad arolygu blaenorol, roedd cynllun gweithredu wedi ei dderbyn, ac roedd chwech o'r gofynion rheoliadol wedi derbyn sylw. Roedd y ddau ofyniad a oedd heb dderbyn sylw yn ymwneud â'r ffaith fod yn rhaid i holl aelodau'r staff gael hyfforddiant ar amddiffyn plant, a chynnwys cleifion yn y broses cynllunio gofal.

O ran llwyddiannau, roedd penodiad dau ddietydd i ganolbwyntio ar asesiadau maeth, cyngor dietegol a ffyrdd iachach o fyw ar gyfer cleifion yn gadarnhaol iawn, ac roedd diwylliant agored iawn o ran sicrhau yr adroddir yn briodol am bob digwyddiad yn yr ysbyty.

Mathau o Gofrestriad

Caniateir y cofrestriad hwn yn ôl y math o wasanaeth a ddarperir. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y math canlynol o wasanaeth.

Disgrifiad
Y math o wasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty annibynnol: Ysbytai annibynnol gyda gwelyau dros nos sy'n darparu triniaethau meddygol ar gyfer iechyd meddwl (gan gynnwys cleifion a gedwir yn gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983).

Amodau Cofrestru

Mae'r cofrestrriad hwn yn amodol ar y canlynol. Archwilir cydymffurfiad ar gyfer pob amod. Disgrifir y dyfarniad fel Cydymffurfio, Ddim yn Cydymffurfio neu Sicrwydd Annigonol.

Rhif yr Amod	Amod y Cofrestrriad	Dyfarniad
1.	Mae Heatherwood Court wedi ei gofrestru i ddarparu triniaeth neu wasanaeth nyrsio (neu'r ddau ohonynt) ar gyfer unigolion sy'n debygol o gael eu cadw'n gaeth dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983. Rhaid i'r unigolyn cofrestredig gynnig llety dim ond i gleifion y mae angen gofal a thriniaeth arnynt ar gyfer eu hanhwylder meddwl mewn amgylchedd ysbyty diogelwch isel.	Cydymffurfio
2.	Ni chaiff nifer yr unigolion sy'n derbyn llety dros nos yn y sefydliad ar unrhyw un adeg fod yn fwy na 48 (pedwar deg wyth). Dim ond unigolion sydd rhwng 18 oed (deunaw) a 65 mlwydd oed (chwe deg pump) a gaiff dderbyn llety yn y sefydliad.	Cydymffurfio
3	Mae'n rhaid i bob uned 12 gwely (gan gynnwys y man gardd) gael ei neilltuo ar gyfer cynnig llety i gleifion o un rhyw penodol. Ni cheir caniatáu i gleifion fynd i'r llety sydd wedi ei neilltuo'n benodol at ddefnydd rhyw arall. Ni cheir caniatáu i gleifion gwrywaidd a benywaidd rannu unrhyw gyfleusterau eraill, gan gynnwys y cyfleusterau cymunedol, oni bai y'u goruchwylir yn briodol gan aelodau'r staff trwy'r amser.	Cydymffurfio
4	Bydd y lefelau staffio gofynnol ar gyfer y sefydliad yn cael eu darparu yn ôl yr hyn a nodir yn y Datganiad o Ddiben cytunedig (Fersiwn 6.3) dyddiedig Medi 2009, ac fel y'u diweddarir o bryd i'w gilydd. Mae'n rhaid i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gytuno i unrhyw newidiadau i'r lefelau staffio gofynnol yn ysgrifenedig cyn y ceir cyflwyno'r newidiadau hynny.	Cydymffurfio

Asesiadau

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn arolygu safleoedd yn uniongyrchol er mwyn asesu safonau. Os ydym yn nodi meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni'r safonau gofynnol neu ddim yn cydymffurfio â'r rheoliadau, neu os nad oes gennym dystiolaeth ddigonol i ddangos bod y safon ofynnol o berfformiad yn cael ei chyflawni, hysbysir yr unigolyn cofrestredig am hyn trwy'r adroddiad arolygu hwn. Efallai hefyd y bydd achlysuron pan nodir diffygion mwy difrifol neu sydd angen sylw ar frys, ac efallai y bydd yr unigolyn cofrestredig wedi ei hysbysu trwy lythyr hefyd o ganfyddiadau a chymau i'w cymryd, ond bydd y materion hynny hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad arolygu hwn. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn penderfynu ar amllder ac angen ar gyfer arolygu sefydliad, ar sail gwybodaeth a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani, ers cynnal yr arolygiad diwethaf. Cyn cynnal arolygiad, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried y wybodaeth sydd ganddi am unigolyn cofrestredig. Gallai hyn gynnwys hunanasesiad yn erbyn y safonau, canfyddiadau'r adroddiad arolygu blaenorol ac unrhyw gynllun gweithredu a gyflwynwyd, adroddiadau o ymweliadau darparwr, y Datganiad o Ddiben ar gyfer y sefydliad neu'r asiantaeth, ac unrhyw gwynion neu wybodaeth am bryderon ynglŷn â'r unigolyn cofrestredig a'r gwasanaethau.

Rydym yn defnyddio pedwar datganiad ar gyfer canlyniad wrth asesu pob safon:

Safon wedi ei bodloni	Dim diffygion: cyflawni'r safonau gofynnol o berfformiad.
Safon bron wedi ei bodloni	Mân ddiffygion: dim diffygion o bwys, ac mae'n ymddangos y gellir cyflawni'r safonau gofynnol o berfformiad heb weithgaredd ychwanegol helaeth.
Safon heb ei bodloni	Diffygion o bwys: mae angen camau sylweddol er mwyn cyflawni'r safonau gofynnol o berfformiad.
Safon heb ei harolygu	Mae hyn naill ai oherwydd nad oedd y safon yn berthnasol, neu, yn dilyn asesiad o'r wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth ac am y sefydliad neu'r asiantaeth, ni nodwyd unrhyw risgiau ac o ganlyniad penderfynwyd nad oedd angen archwilio'r safon ymhellach yn ystod yr arolygiad hwn.

Asesiadau a Gofynion

Mae'r asesiadau wedi eu rhoi mewn grwpiau dan y penawdau canlynol, a cheir cyfeirnod ar gyfer pob safon:

- Safonau Craidd
- Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth

Talfyriadau Safonau:

C = Safonau craidd

A = Safonau aciwt

MH = Safonau iechyd meddwl

H = Safonau hosbis

MC = Safonau mamolaeth

TP = Safonau terfynu beichiogrwydd

P = Safonau technegau a thechnoleg rhagnodedig

PD = Safonau meddygon preifat

Os nad yw'r unigolyn cofrestredig wedi bodloni unrhyw un o'r safonau isod yn llwyr, rydym wedi nodi ein canfyddiadau ar ddiwedd yr adroddiad, yn ogystal â'r camau y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig eu cymryd er mwyn cydymffurfio a'r rheoliad penodol. Gallai peidio â chydymffurfio â rheoliad fod yn drosedd. Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai bwriad yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r arolygydd yn ystod digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad y bydd amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser; weithiau mae gwasanaethau yn gwella ac weithiau'n dirywio.

Safonau Craidd

Rhif	Pwnc y Safon	Asesiad
C1	Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth eglur a chywir am eu triniaeth.	Safon wedi'i bodloni
C2	Mae'r driniaeth a'r gofal a ddarperir yn rhoi'r claf yn gyntaf.	Safon bron wedi'i bodloni
C3	Mae triniaethau a roddir i gleifion yn unol â chanllawiau clinigol perthnasol.	Safon bron wedi'i bodloni
C4	Sicrheir cleifion bod ansawdd y driniaeth a'r gofal yn cael ei fonitro.	Safon bron wedi'i bodloni
C5	Trafodir gofal terfynol a marwolaeth cleifion yn briodol ac yn sensitif.	Safon heb ei harolygu
C6	Mae'r sefydliad yn cael barn cleifion ac yn defnyddio'r wybodaeth wrth ddarparu triniaeth a gofal, ac ar gyfer darpar gleifion.	Safon wedi'i bodloni
C7	Mae polisiau a gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cynorthwyo i sicrhau ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau.	Safon bron wedi'i bodloni
C8	Sicrheir cleifion bod y sefydliad neu asiantaeth yn cael ei redeg/rhedeg gan sefydliad/unigolyn addas a bod llinell eglur o atebolrwydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau.	Safon wedi'i bodloni
C9	Mae cleifion yn derbyn gofal gan staff sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.	Safon bron wedi'i bodloni
C10	Mae cleifion yn derbyn gofal gan nyrsys sydd wedi eu cofrestru'n briodol sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol i ddarparu gofal i gleifion yn ddiogel ac yn effeithiol.	Safon wedi'i bodloni
C11	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.	Safon heb ei harolygu
C12	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr iechyd proffesiynol sy'n cydymffurfio â'u codau ymarfer proffesiynol.	Safon heb ei harolygu
C13	Nid yw'r cleifion na phersonél wedi eu heintio â firysau a gludir yn y gwaed.	Safon wedi'i bodloni
C14	Caiff plant sy'n derbyn triniaeth eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon heb ei harolygu
C15	Caiff oedolion sy'n derbyn gofal eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon wedi'i bodloni
C16	Mae proses gwyno effeithiol ar gael i gleifion.	Safon wedi'i bodloni
C17	Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â sut i wneud cwyn.	Safon wedi'i bodloni
C18	Mae'n ddyletswydd ar staff a phersonél i fynegi pryderon ynglŷn ag arfer amheus neu wael.	Safon wedi'i bodloni

Rhif	Pwnc y Safon	Asesiad
C19	Mae cleifion yn derbyn triniaeth mewn safle sy'n ddiogel ac sy'n addas ar gyfer y driniaeth honno. Darperir amgylchedd addas i blant a dderbynnir neu sy'n mynychu'r safle i gael triniaeth.	Safon wedi'i bodloni
C20	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ddefnyddio offer a chyflenwadau sy'n ddiogel ac sydd mewn cyflwr da.	Safon wedi'i bodloni
C21	Mae cleifion yn derbyn gwasanaethau arlwyyo priodol.	Safon wedi'i bodloni
C22	Sicrheir cleifion, staff ac unrhyw un sy'n dod i ymweld â'r safle cofrestredig y caiff yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r sefydliad, y triniaethau a'r gwasanaethau eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n briodol.	Safon bron wedi'i bodloni
C23	Mae'r camau iechyd a diogelwch priodol wedi eu sefydlu.	Safon heb ei harolygu
C24	Mae camau wedi eu sefydlu ar gyfer sicrhau rheoli a thrin meddyginiaethau yn ddiogel.	Safon wedi'i bodloni
C25	Caiff meddyginiaethau, rhwymau a nwyon meddygol eu trin mewn modd saff a diogel.	Safon wedi'i bodloni
C26	Caiff cyffuriau rheoledig eu cadw, eu rhoi a'u dinistrio yn briodol.	Safon bron wedi'i bodloni
C27	Mae'r risg i gleifion, staff ac ymwelwyr o ran dal afiechyd a gafwyd yn yr ysbyty yn cael ei leihau cymaint â phosib.	Safon wedi'i bodloni
C28	Ni roddir triniaeth i gleifion gyda dyfeisiadau meddygol halogedig.	Safon wedi'i bodloni
C29	Caiff cleifion eu dadebru'n briodol ac yn effeithiol.	Safon wedi'i bodloni
C30	Mae contractau yn sicrhau bod cleifion yn derbyn nwyddau a gwasanaethau o ansawdd priodol.	Safon heb ei harolygu
C31	Caiff cofnodion eu creu, eu cynnal a'u storio i safon sy'n bodloni cydymffuriad cyfreithiol a rheoliadol ac argymhellion arfer proffesiynol.	Safon wedi'i bodloni
C32	Sicrheir cleifion y cwblheir cofnodion iechyd yn briodol.	Safon wedi'i bodloni
C33	Sicrheir cleifion y rheolir yr holl wybodaeth o fewn y corff rheoledig er mwyn sicrhau cyfrinachedd cleifion.	Safon wedi'i bodloni
C34	Caiff unrhyw ymchwil a gynhelir yn y sefydliad / asiantaeth ei gynnal gyda chaniatâd awdurdodedig a phriodol y cleifion perthnasol, yn unol â chanllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ynglŷn â chynnal prosiectau ymchwil.	Safon heb ei harolygu

Safonau sy'n Benodol ar Gyfer y Gwasanaeth – mae'r rhain yn benodol ar gyfer y math o sefydliad a arolygir

Rhif	Safonau Ysbytai Iechyd Meddwl	Asesiad
M1	Gweithio gyda'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl.	Safon wedi'i bodloni
M2	Cyfathrebu rhwng y staff.	Safon wedi'i bodloni
M3	Cyfrinachedd cleifion.	Safon wedi'i bodloni
M4	Archwiliad clinigol.	Safon bron wedi'i bodloni
M5	Niferoedd staff a chymysgedd sgiliau.	Safon bron wedi'i bodloni
M6	Hyfforddiant staff.	Safon bron wedi'i bodloni
M7	Asesu a rheoli risgiau.	Safon wedi'i bodloni
M8	Atal hunanladdiad.	Safon wedi'i bodloni
M9	Gweithdrefnau dadebru.	Safon wedi'i bodloni
M10	Cyfrifoldeb dros wasanaethau fferyllol.	Safon wedi'i bodloni
M11	Y Dull Rhaglen Ofal/rheoli gofal.	Safon wedi'i bodloni
M12	Derbyn ac asesu.	Safon wedi'i bodloni
M13	Y Dull Rhaglen Ofal/cynllunio ac adolygu gofal.	Safon wedi'i bodloni
M14	Gwybodaeth i gleifion am eu triniaeth.	Safon bron wedi'i bodloni
M15	Cleifion ag anableddau datblygol.	Safon wedi'i bodloni
M16	Therapi Electroddirdynnol (ECT).	Safon heb ei harolygu
M17	Rhoi meddyginiaeth.	Safon bron wedi'i bodloni
M18	Hunanfeddyginiaethu.	Safon heb ei harolygu
M19	Triniaeth ar gyfer bod yn gaeth i gyffuriau/alcohol.	Safon wedi'i bodloni
M20	Trosglwyddo cleifion.	Safon heb ei harolygu
M21	Rhyddhau cleifion.	Safon heb ei harolygu

M22	Cofnodion cleifion.	Safon bron wedi'i bodloni
M23	Grymuso.	Safon wedi'i bodloni
M24	Trefniadau ymweld.	Safon wedi'i bodloni
M25	Gweithio gyda gofalwyr ac aelodau'r teulu.	Safon wedi'i bodloni
M26	Arfer gwrthwahanïaethol.	Safon wedi'i bodloni
M27	Ansawdd bywyd cleifion.	Safon heb ei harolygu
M28	Arian cleifion.	Safon heb ei harolygu
M29	Cyfyngiadau a diogelwch ar gyfer cleifion.	Safon wedi'i bodloni
M30	Lefelau arsylwi.	Safon wedi'i bodloni
M31	Rheoli ymddygiad cythryblus.	Safon wedi'i bodloni
M32	Rheoli digwyddiadau difrifol/anffafriol.	Safon wedi'i bodloni
M33	Cleifion yn marw'n annisgwyl.	Safon wedi'i bodloni
M34	Cleifion sy'n dianc	Safon wedi'i bodloni
M35	Atal cleifion yn gorfforol ac ymyrraeth gorfforol.	Safon wedi'i bodloni
M41	Sefydliadau lle darperir triniaeth i bobl sy'n agored i gael eu cadw'n gaeth dan orchymyn – gwybodaeth i'r staff.	Safon wedi'i bodloni
M42	Hawliau Cleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Standard met
M43	Gwahanu oddi wrth gleifion eraill.	Safon heb ei harolygu
M44	Absenoldeb dan Adran 17.	Safon wedi'i bodloni
M45	Absenoldeb heb ganiatâd dan Adran 18.	Safon wedi'i bodloni
M46	Rhyddhau cleifion a gedwir yn gaeth.	Safon wedi'i bodloni
M47	Hyfforddiant staff ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Safon bron wedi'i bodloni

Atodlenni Gwybodaeth

Mae'r atodlenni gwybodaeth yn nodi manylion y wybodaeth y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig ei darparu, ei chadw neu ei chofnodi, o ran cofnodion penodol.

Atodlen	Manylion	Aseiad
1	Gwybodaeth i'w chynnwys yn y datganiad o ddiben.	Cydymffurfio
2	Gwybodaeth ofynnol yn ymwneud ag unigolion sy'n dymuno rhedeg, rheoli neu weithio mewn sefydliad.	Cydymffurfio
3 (Rhan I)	Y cyfnod gofynnol ar gyfer cadw cofnodion meddygol.	Cydymffurfio
3 (Rhan II)	Cofnodion y mae'n rhaid eu cadw i'w harolygu.	Cydymffurfio
4 (Rhan I)	Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi ynglŷn â chleifion sy'n derbyn gwasanaethau obstetreg.	Amherthnasol
4 (Rhan II)	Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi am blentyn a anwyd mewn ysbyty annibynnol.	Amherthnasol

Gofynion

Mae'r gofynion isod yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiad â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 a ganfuwyd o ganlyniad i asesu'r safonau a nodir yn y golofn ar y llaw chwith a gwybodaeth arall yr ydym wedi ei derbyn gan y darparwr ac amdano/amdani. Cyfrifoldeb yr *'unigolyn cofrestredig'* yw'r gofynion, a allai fod, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, naill ai'r darparwr cofrestredig neu'r rheolwr cofrestredig ar gyfer y sefydliad neu'r asiantaeth. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gofyn i'r person cofrestredig ddarparu *'cynllun gweithredu'* i gadarnhau sut y mae'n bwriadu gweithredu'r camau gofynnol, a bydd yr Arolygiaeth, os oes angen, yn cymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliad a nodir.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
C2 & M14	15 (1) a (3)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Nid oedd cleifion yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn eu proses cynllunio gofal.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y galluogir yr holl gleifion i fod yn rhan o lunio eu cynlluniau gofal ac i wneud penderfyniadau ynglŷn â hwy.</p>	O fewn dau fis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.
C4 & M4	16 (1)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Roedd rhaglen archwilio clinigol yn cael ei datblygu er mwyn cydymffurfio â Chomisiynu ar gyfer Ansawdd ac Arloesedd (CQUIN).</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y gweithredir rhaglen archwilio clinigol fwy cynhwysfawr, er mwyn sicrhau'r defnydd o wybodaeth gymharol ynghylch canlyniadau clinigol, cyflwyno dangosyddion perfformiad, a chanfyddiadau archwiliadau clinigol a nyrsio.</p>	Rhaid gweithredu'r rhaglen archwilio clinigol yn llawn o fewn tri mis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.
C9	17 (2) (a)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Nid oedd perfformiad y staff yn cael ei adolygu'n rheolaidd bob blwyddyn, ac roedd diffyg goruchwyliaeth staff.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau yr adolygir perfformiad pob aelod o staff yn y sefydliad o leiaf unwaith y flwyddyn.</p>	Rhaid gweithredu proses rheoli perfformiad yn llawn ar gyfer yr holl staff o fewn dau fis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.
C22 ac M17	14 (5)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Yn anffodus, nid oedd yn bosibl rhoi meddyginiaeth i gleifion yn uniongyrchol ar Ward Caernarvon. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r nyrsys cofrestredig, a oedd yn dosbarthu cyffuriau, roi'r feddyginiaeth mewn cynhwysydd priodol, cloi'r</p>	Rhaid derbyn cynllun gweithredu o fewn 28 diwrnod i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
		<p>cwpwrdd meddyginiaeth, a gadael yr ystafell driniaeth a'r swyddfa i ddsbarthu meddyginiaeth i gleifion. Mae'r sefyllfa hon yn anfoddfaol ac mae angen ei hadolygu'n ddi-oed.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig adolygu'r system ar gyfer rhoi meddyginiaeth i gleifion, er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r system bresennol.</p>	
C22	15 (1)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod y ffurflenni ar gyfer digwyddiad 'ond y dim' yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y defnyddir y ffurflenni ar gyfer digwyddiad 'ond y dim' yn briodol.</p>	Yn ddi-oed ac yn barhaus.
M5, M6 ac M47	17 (2) (a)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Roedd nifer o aelodau'r staff nad oeddent wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant, hunanladdiad/hunan-niwed, anhwylderau personoliaeth a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar amddiffyn plant, hunanladdiad/hunan-niwed, anhwylderau personoliaeth a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.</p>	O fewn dau fis i ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.
	24 (2) (b)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Nid oedd unrhyw ardal ymweld addas i blant ar gael yn y sefydliad.</p>	Rhaid anfon cynllun gweithredu o sut y rhoddir sylw i'r maes hwn i AGIC o fewn 28 diwrnod i

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
		Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig ddarparu ardal ymweld addas i blant yn y sefydliad.	ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.

Argymhellion

Gallai argymhellion ymwneud ag agweddau ar y safonau neu â'r canllawiau cenedlaethol. Maent wedi eu nodi er mwyn i'r unigolion cofrestredig eu hystyried ond nid ydynt yn cael eu gorfodi yn gyffredinol.

Safon	Argymhelliad
C3	Mae angen gwella rhai meysydd o arferion clinigol ymhellach, ac mewn ymateb i'r maes hwn, mae cynllun gweithredu wedi ei roi ar waith er mwyn gwella'r rhaglen hyfforddiant sefydlu a'r fframwaith nyrsys cofrestredig.
C7	Dylai pob aelod o'r staff ddarllen y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w maes gwaith, a llofnodi datganiad i'r perwyl hwn.
C26	Argymhellir y dylid cael ail lofnod pan roddir cyffur rheoledig atodlen tri i glaf.
M22	Dylai'r Clinigwr Cyfrifol wneud nodiadau mewn cofnod amlddisgyblaethol unigol yn ôl trefn amser, er mwyn adlewyrchu'r gofal a roddir i gleifion dros gyfnod.

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn bodoli i hybu gwelliannau mewn iechyd a gofal iechyd. Mae'n ddyletswydd statudol arnom i asesu perfformiad sefydliadau gofal iechyd ar gyfer y GIG, a chydgysylltu adolygiadau gofal iechyd gan eraill. Wrth wneud hyn, ein nod yw lleihau'r baich rheoleiddio ar sefydliadau gofal iechyd a chydgysylltu'r asesiadau gofal iechyd a ddarperir gan y GIG a'r sector annibynnol (preifat a gwirfoddol).

Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ond nid ar gyfer ail werthu masnachol. Cewch atgynhyrchu'r Adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r caniatâd hwn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn fanwl gywir, ac ar beidio â'i ddefnyddio mewn modd dirmygus neu gyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod y deunydd fel © 2011 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a theitl y ddogfen dan sylw. Dylid cyflwyno ceisiadau am atgynhyrchu yn ysgrifenedig at: Y Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Parc Busnes Caerffili, Caerffili, CF83 3ED